

Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Teitl	Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: ymchwiliadau a gwaith ymgysylltu ar gyfer y dyfodol
Dyddiad	25 Ionawr 2017
Gan	Lynne Neagle AC – Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Diolch Llywydd, yr wyf yn croesawu'r cyfle hwn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar waith y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Fel Cadeirydd y Pwyllgor, rwyf wrth fy modd â'r cynnydd a wnaed o ran craffu ar feysydd polisi a deddfwriaeth allweddol dros gyfnod mor fyr.

Dros yr haf, gwnaethom ymgynghori ar y pethau y dylent fod yn flaenoriaethau i'n Pwyllgor ni. Yr oeddwn yn falch o weld cyflwyniadau amrywiol a manwl gan bron i 90 o sefydliadau ac unigolion o bob rhan o Gymru. Arweiniodd hyn at y Pwyllgor yn dechrau ar ddau ymchwiliad yr oedd rhanddeiliaid wedi'u nodi: Gwasanaethau eiriolaeth statudol ar gyfer plant a phobl ifanc; a chanlyniadau addysgol ar gyfer dysgwyr sy'n Sipsiwn a Theithwyr a dysgwyr Lleiafrifoedd Ethnig. Rydym wedi gorffen cymryd tystiolaeth ar y ddau bwnc hyn a byddwn yn adrodd arnynt yn fuan.

Gan edrych ymhellach i'r dyfodol ac yn fwy strategol, nododd ein Pwyllgor, yn y broses o gynllunio, egwyddorion a dyheadau ar gyfer ein gwaith dros Bumed tymor y Cynulliad. Yn sail i bopeth fydd y broses o gynnwys plant a phobl ifanc. Trwy ein gwaith, byddwn yn sicrhau bod barn a phrofiadau plant a phobl ifanc yn cael eu cipio mewn ffordd ddefnyddiol, sensitif ac adeiladol.

Yn ein hymchwiliad ciplun i Wasanaethau Ieuentid yng Nghymru, rhoddodd mwy na 1,500 o bobl ifanc eu barn i ni am y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio. Roedd eu cyfraniad yn rhan hanfodol o'n canfyddiadau a'n hargymhellion, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr. Roedd yr adborth gan bobl ifanc yn glir - pan fo darpariaeth gwaith ieuentid yn diflannu o fywyd person ifanc, mae'r effaith yn sylweddol. Mae'r gwasanaethau hyn yn aml yn gatalydd i'w helpu i ddatblygu sgiliau a hyder a gwneud dewisiadau gwell yn eu bywydau.

Mae'n parhau i fod yn hanfodol i ni weithio gyda sefydliadau rhanddeiliaid, gofalwyr, athrawon a rhieni. Ac yr wyf yn gwbl ymrwymedig i sicrhau ein bod yn Bwyllgor sy'n edrych tuag allan ac yn ymgysylltu. Yn ystod ein gwaith craffu ar Gyfnod 1 y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol, bydd ein Haelodau'n cynnal digwyddiadau gyda rhieni a gofalwyr yng ngogledd a de Cymru.

Yr wyf hefyd yn falch o roi gwybod i'r Aelodau y bydd cyfres o weithdai yn digwydd i bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd hyn yn rhan bwysig o'n gwaith craffu ar y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol ac rwy'n edrych ymlaen at weld safbwyntiau pobl ifanc yn llywio ein gwaith. Byddwn hefyd yn cynnal cynhadledd ar gyfer ymarferwyr a rhanddeiliaid sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc er mwyn iddynt roi eu barn ar y Bil ni.

Byddai'n esgeulus ohonof i beidio â diolch i TSANA a SNAP Cymru am eu gwaith partneriaeth ardderchog gyda'n Pwyllgor dros y misoedd diwethaf. Mae'r bartneriaeth hon wedi ein galluogi i ymgysylltu'n ystyrlon â'r rhai a fydd yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y ddeddfwriaeth.

Bydd ein gwaith partneriaeth a'n dull o edrych allan trwy gydol y gwaith craffu deddfwriaethol hwn yn sicrhau bod anghenion defnyddwyr gwasanaeth wrth wraidd ein gwaith.

Bydd craffu ar y Bil ADY yn rhan sylweddol o'n gwaith tan ddiwedd y gwanwyn.

Llywydd, mae aelodau'r pwyllgor a minnau wedi ymrwmo i ymgymryd â gwaith a fydd yn gwneud cyfraniad sylweddol at wella bywydau plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Yn un o'n hymgyngoriadau cyfredol, rydym yn archwilio pwysigrwydd 1,000 diwrnod cyntaf bywyd plentyn. O feichiogrwydd hyd at yr 2il ben-blwydd. Mae'r cyfnod ffurfiannol hwn yn rhan hollbwysig o fagwraeth plentyn ac yn gosod y sail ar gyfer datblygiad deallusol ac iechyd gydol oes.

Bydd y Pwyllgor yn ystyried i ba raddau y mae polisïau a rhaglenni Llywodraeth Cymru yn cefnogi rôl gynnar y rhiant yn ystod y 1,000 o ddiwrnodau cyntaf. Ac yn hollbwysig pa mor effeithiol yw'r rhain wrth gefnogi galluedd a datblygiad emosiynol a chymdeithasol plant yn y tymor hir.

Bydd yr ymchwiliad pwysig hwn, rwy'n gobeithio, yn gosod y sail ar gyfer sgwrs genedlaethol fawr am sut y gallwn baratoi dinasyddion y dyfodol ar gyfer bywydau hapus ac iach.

Mae'r Pwyllgor yn ceisio mewnbwn gan athrawon a gweithwyr addysg proffesiynol eraill ar gyfer ein hymchwiliad i Ddysgu Proffesiynol ac Addysg Athrawon. Mae Llywodraeth Cymru yn diwygio'r ffordd y mae athrawon newydd yn cael eu hyfforddi cyn iddynt gymhwyso a hefyd eu datblygiad proffesiynol parhaus trwy gydol eu gyrfaedd.

Weithiau mae'r gweithwyr proffesiynol hyn wedi'u cloi i mewn i amserlenni anhyblyg ac oherwydd materion capasiti a chynllunio yn aml ni allant gael yr amser i wella eu

hunain yn broffesiynol. Ni all hyn barhau o ystyried y newidiadau parhaus i system addysg Cymru, felly byddwn yn edrych yn benodol ar:

- Y trefniadau o ran datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer y gweithlu presennol;
- Rôl addysg gychwynnol athrawon; a
- Digonolrwydd y gweithlu yn y dyfodol.

Fel rhan o'n hymgyngoriad byddwn yn gweithio gyda'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i ymgysylltu ar y cyd â'r proffesiwn addysgu fel rhan o'u gwaith ar gonsortia.

Bydd yr Aelodau'n falch o glywed na fydd ein pwyllgor yn cynnal cyfres o ddarnau penodol o waith yn unig, ond bydd hefyd yn sicrhau bod craffu parhaus yn cael ei gynnal mewn perthynas â meysydd polisi sy'n datblygu. I'r perwyl hwnnw, rydym yn parhau i archwilio'n agos y broses o weithredu adolygiadau Donaldson a Diamond. Bydd hyn yn chwarae rôl hanfodol o ran cyflawni llwyddiant y diwygiadau pwysig sy'n cael eu cynnig. Yn gysylltiedig â'n gwaith craffu parhaus o ddiwygiadau'r cwricwlwm, byddwn yn archwilio'n agosach perfformiad Cymru yn PISA ac yn archwilio sut yn union y bydd y diwygiadau cwricwlwm yn effeithio ar ein safle rhyngwladol.

Bydd iechyd plant yn rhan fawr o'n gwaith dros y blynyddoedd nesaf. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at weithio gyda sefydliadau megis y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant a chroesawu Prif Swyddog Meddygol Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor ym mis Mawrth i amlinellu ei weledigaeth ar gyfer gwella iechyd plant.

Mae aelodau'r Pwyllgor yn hynod angerddol am ansawdd a darpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer pobl ifanc. Mae'r Pwyllgor eisoes wedi cynnal gwaith craffu ar waith Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd, Llesiant a Chwaraeon, ac yr wyf yn siŵr ei fod yn ymwybodol y byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar y maes pwysig hwn. Bydd y Pwyllgor yn parhau i edrych ar y cymorth sydd ar gael i bobl ifanc mewn argyfwng, ac yn benodol yr oedi wrth gael mynediad i CAMHS yn ogystal â'r cymorth sydd ar gael i blant a phobl ifanc nad ydynt yn cyrraedd y trothwy ar gyfer gwasanaethau arbenigol.

Mae'r fenter Senedd leuenctid sy'n cael ei harwain gan y Llywydd yn foment wirioneddol gyffrous yn hanes y Cynulliad. Mae'n fenter a ddylai greu cysylltiadau ystyrlon a hir rhwng ysgolion, pobl ifanc a'r Cynulliad, ac mae'n gydnabyddiaeth o wir werth plant a phobl ifanc yn ein democratiaeth. Rwyf am gynnig cefnogaeth lawn a diwyro ein Pwyllgor i sefydlu'r Senedd leuenctid, ac edrychaf ymlaen at chwarae rhan lawn o ran ei rhoi ar waith.

Wrth ddod â'm datganiad i ben heddiw Lywydd, hoffwn ddiolch i'r bobl ifanc, y gofawyr, y rhieni a'r arbenigwyr sydd wedi bod mor barod i gyfrannu at ein cylch

gwaith eang ers sefydlu'r Pwyllgor. Yr wyf yn gobeithio y bydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn gyfrwng go iawn i leisiau pobl ifanc lunio polisi a deddfwriaeth yng Nghymru yn ystod pumed tymor y Cynulliad. Diolch.

I'w wirio yn erbyn yr hyn a ddywedwyd

Embargo tan ar ôl i Lynne Neagle AC - *Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg* wneud y datganiad.